## YR ATODLEN

Erthygl 12

Gofynion mewn crynhoad anifeiliaid

### Dyletswyddau trwyddedai

**1.**—(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw berson sy'n mynd ar y fangre drwyddedig yn cael gwybod bod y fangre'n drwyddedig o dan y Gorchymyn hwn, pa un ai trwy gyfrwng system o hysbysiadau y gwneir hynny neu mewn rhyw ffordd arall.

(2) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu'r canlynol wrth yr allanfeydd o'r man i anifeiliaid ac wrth unrhyw fan llwytho a dadlwytho—

(a) baddonau traed sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd; a

(b) cyfleusterau ar gyfer tynnu oddi ar esgidiau laid, tom anifeiliaid ac unrhyw halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid cyn defnyddio'r baddonau traed.

(3) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu cyfleusterau ar y fangre drwyddedig ar gyfer newid, glanhau a diheintio dillad a gwaredu dillad y gellir eu taflu.

(4) Rhaid i'r trwyddedai —

(a) sicrhau mai yn y man i anifeiliaid yn unig y caiff yr anifeiliaid eu dadlwytho a'u llwytho; a

(b) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw anifeiliaid yn gadael y man i anifeiliaid ac eithrio ar gerbyd.

(5) Pan gynhelir crynhoad anifeiliaid y mae'r terfynau amser yn erthyglau 9 a 10 yn gymwys iddo, rhaid i'r trwyddedai sicrhau—

(a) na ddeuir â'r un anifail i'r fangre cyn dechrau'r crynhoad anifeiliaid; a

(b) bod pob anifail yn cael ei symud o'r fangre erbyn diwedd y crynhoad anifeiliaid.

### Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

**2.**—(1) Ni chaiff neb fynd ar fangre drwyddedig yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi'u halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid.

(2) Os bydd person yn y man i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi eu halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid, rhaid iddo ar ei union wrth adael y man i anifeiliaid, lanhau halogi garw oddi ar ei ddillad allanol neu ei esgidiau (onid ydynt i gael eu gwaredu) a naill ai—

(a) eu diheintio;

(b) newid i ddillad neu esgidiau glân;

(c) eu gwaredu; neu

(ch) ymadael â'r fangre drwyddedig.

(3) Os bydd person y tu allan i'r man i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol neu esgidiau y gellir gweld eu bod wedi eu halogi â llaid, tom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid, caiff arolygydd gyflwyno iddo hysbysiad yn rhoi iddo'r dewis a hynny ar ei union—

(a) glanhau ei ddillad allanol neu ei esgidiau;

(b) newid i ddillad neu esgidiau glân;

(c) gwaredu dillad neu esgidiau y gellir eu taflu; neu

(ch) ymadael â'r fangre drwyddedig.

**Esgidiau i'w gwisgo yn y man i anifeiliaid**

**3.** Rhaid i unrhyw berson sy'n ymadael â'r man i anifeiliaid, gan ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarperir, dynnu'r llaid, tom anifeiliaid ac unrhyw halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid oddi ar ei esgidiau ac yna diheintio'r esgidiau hynny yn y baddon traed a ddarperir sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd.

**Cerbydau**

**4.**—(1) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw gerbyd na chyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw ar y fangre drwyddedig na mynd â hwy oddi yno os gellir gweld eu bod wedi'u halogi â thom anifeiliaid neu unrhyw halogiad arall sy'n dod o anifeiliaid.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw sy'n dod ar fangre drwyddedig —

(a) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a gludir ar y cerbyd pan ddaethpwyd â'r cerbyd ar y fangre drwyddedig; neu

(b) yn unswydd er mwyn eu glanhau a'u diheintio, os eir â hwy yn unionsyth i'r cyfleusterau glanhau a diheintio yn ddi-oed ar ôl cyrraedd y fangre.

(3) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar a gludir ar y cerbyd hwnnw sy'n ymadael â'r fangre drwyddedig—

(a) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a ddadlwythwyd o'r cerbyd ar y fangre drwyddedig; neu

(b) os yw'r dom anifeiliaid neu halogiad arall yn dod yn unig o'r anifeiliaid a lwythwyd ar y cerbyd ar y fangre drwyddedig.